


Rhif Myfyriwr: 1601615

Model Pwnc Unigol Trosglwyddadwy





Estyn (Ar gael yn: <https://tinyurl.com/yavbx9fr>)



Barnes J. (2015) Ar gael yn: *Cross-Curricular Learning 3-14*
[Amazon.co.uk: Jonathan Barnes 9781446297049: Books](https://www.amazon.co.uk/Jonathan-Barnes-9781446297049/dp/)

Dyfodol Llwyddiannus (Ar gael yn:
llwycymru.llwycymru-llwydraeth.cymru/)



Llywodraeth Cymru (2015) Ar gael yn:
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>

Gwahand safbwyntiau ar addysgu'n drawsgwricwlaidd

Dweda Barnes (2016, t. 264) yn hytrach na defnyddio cwricwlwm sydd wedi'i neilltuo'n unig i addysgu pynciau ar wahân, dylid defnyddio pedagogiaidd drawsgwricwlaidd am ei bod yn cymhell a chynnal dysgwyr ystyrlon a foddhaol sydd yn fanteisio i'r dysgwyr.


Yn adroddiad Donaldson (2015, t. 40) dwedir, 'dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Drawsgwricwlaidd i'r holl athrawon a phobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.' Pwysleiswyd Donaldson pwysigrwydd dysgu'n drawsgwricwlaidd am ei fod yn datblygu cymhwysedd uchel blant ac felly mae hyn yn cael ei ddatblygu yn gyson a'i hymestyn ar draws y cwricwlwm. Wrth ddysgu'n drawsgwricwlaidd, mae hyn yn cyd-fynd ac argymhellion Donaldson (2015) o ddatblygu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hunain.

Yn ôl Estyn (2016) Mae'r cwricwlwm yn ennyn diddordebau disgyblion yn hynod o dda ac mae'n sicrhau parhad a dilyniant yn eu dysgu. Dwedir bod hyn o ganlyniad uniongyrchol o gael cwricwlwm mwy cyfoethog. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da twy'r ysgol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a Chymraeg, yn ogystal â meithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig.

Nodir gan yr Adran Addysg a Sgiliau (2013, t. 7) "mae'n rhaid i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd fod yn wirioneddol drawsgwricwlaidd yn hytrach na chanolbwyntio ar wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg."

Tacsonomeg Bloom

Mae'r dactsonomeg yma yn cyd-fynd a'r modelau a ddewiswyd am fod cwestiynu yn rhan hanfodol o'r gweithgareddau a amlygwyd. Mae tacsonomeg Bloom yn darparu fframwaith pwysig i athrawon ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar ddatblygu meddylfryd plant. Drwy ddarparu hierarchaeth o lefelau, gall y dactsonomeg hon cynorthwyo athrawon i ddylunio tasgau perfformiad, creu cwestiynau ar gyfer datblygu myfyrwyr, a hefyd rhoi adborth ar waith myfyrwyr. Mae'r dactsonomeg hon yn cyd-fynd a'r modelau a amlygwyd gan fod gofyn cwestiynau o lefelau gwahanol a thrafod yn gallu datblygu meddylfryd uwch disgyblion yn y dosbarth.



<https://tinyurl.com/y84b9vys>

Manteision a chyfyngiadau'r model Thema seiliedig

Manteision y model Thema Seiliedig yn ôl Barnes (2016, tt. 69-70) yw bod modd defnyddio thema benodol er mwyn datblygu dealltwriaeth o amryw o bynciau allweddol arall. Er hyn dwedir ei bod yn gallu fod yn gyfyngedig am fod nodau aneglur a chysylltiadau dawnus yn cael effaith ar ddysgu'r disgyblion. Yn gyfatebol a hyn creda Barnes (2016, tt. 69-70) os yw'r model yn cael ei ddefnyddio'n gywir megis sicrhau cynllunio trylwyr, asesu cyson a hefyd bod y gweithgareddau yn cysylltu â'r adnoddau cyfoethog sydd ar gael yn yr ysgol, fe fydd hyn yn sicrhau datblygiad o ran dealltwriaeth y disgyblion.

Addysgu'n Drawsgwricwlaidd

Cyfnod Sylfaen – Bl.1

Gweithgaredd Lluniau PDF

Didoli lluniau bwydydd iach ac afiach ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, er mwyn dangos eu dealltwriaeth o ba fwydydd sydd yn iachus neu beidio. Defnyddir hyn fel cyflwyniad yn y wers. Bydd y plant yna yn argraffu'r lluniau yma a trafod o ble mae'r bwyd wedi dod.

Blasu Bwydydd

Blasu bwydydd iach ac aniach a trafod pa rhai maent yn hoff ohoni a pa rhai maent yn meddwl sydd yn iachus neu beidio. Cwestiynu y plant gan ddefnyddio tacsonomeg Bloom. Defnyddir hyn fel tasg ffocws.

Sgiliau cwricwlaidd a ddatblygwyd

Llythrennedd

Mynegi barn ar bynciau cyfarwydd. Cyfrannu i sgysiaau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi.

Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth. (LLC, 2014)

Rhifedd

Casglu gwybodaeth drwy bleidleisio a chyflwyno ar ffurf lluniau, gwrthrychau neu luniadau. Llunio rhestrau a thablau yn seiliedig ar y data a gasglwyd. Didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf

Canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o 10c. (LLC, 2014)

Cymhwysedd Digidol

Gweithio gyda phartner/partneriaid ar ddarn o waith ddigidol Dewis meddalwedd priodol i gwblhau tasgau. (LLC, 2016)

Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesac Armywiaeth Ddiwylliannol

Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rolau y mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau Ffurio perthnasoedd a theimlo'n ddigon hyderus i gyd-chwarae

Arbrofi â chyfleoedd dysgu newydd Dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol (LLC, 2015)

Grwpio Bwydydd

Bydd y plant yn grwpio bwydydd gwahanol er mwyn creu diagramau fen gwahanol. Fe fydd y grwpiau yn cynnwys bwydydd iach ac aniach, llysiau a frwythau a.y.b. Fe fydd y plant yn trafod sut i grwpio'r bwydydd wrth ofyn cwestiynau i'w gilydd. Fe fydd offer ar gael megis hwpiau er mwyn creu diagram fen. Fe fydd hyn yn ddarpariaeth barhaus.

Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesac Armywiaeth Ddiwylliannol

Bydd y plant yn trafod gyda'i gilydd er mwyn dod o hyd i hoff fwydydd y dosbarth. Bydd y plant yna yn creu pictogram ar J2E ar Hwb. Fe fydd hyn yn cael ei wneud yn yr ardal technoleg gwybodaeth fel ddarpariaeth barhaus yn y wers.

Creu pictogram

Gwers Bwyta'n iach

Prisio Bwydydd

Bydd y plant yn gwneud tasg symiau adio a tynnu gwrthrychau sydd wedi penodi a phris. Byddent hefyd yn gwneud symiau megis rhoi newid i cwsmeriaid. Fe all y plant ddefnyddio ei ddealltwriaeth o hyn yn y Siop yn yr ardal chwarae rôl.

Pam dewis y model Pwnc Unigol Trosglwyddadwy a sut fydd hyn yn cael ei weithredu yn y dosbarth?

Mae'r model pwnc unigol trosglwyddadwy yn fodel sy'n hawdd ei weithredu yn y cyfnod sylfaen. Am fod y model yn seiliedig ar bwnc, fe all ei ddefnyddio o ran cynnal gweithgareddau gwahanol o fewn un wers gan gynnwys darpariaethau parhaus a thasgau ffocws. Mae hyn yn cyd-fynd a chwicwlwm Donaldson (2015) sydd yn cael ei ddatblygu'n fuan am ei fod yn seiliedig ar yr athroniaeth Cyfnod Sylfaen o ran yr addysgu a dysgu yn y dosbarth.

Mae'r model hefyd yn caniatáu cylchdroi grwpiau yn hawdd o un gweithgaredd i'r llall.

Sgiliau trosglwyddadwy

Nodir yn adroddiad Donaldson (2015, t. 106) bod rhaid i'r plant gweld "pwrpas yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut y mae'r agweddau ar ddysgu'n ffitio i'w gilydd." Felly mae'n rhaid sicrhau bod sgiliau trosglwyddadwy yn cael ei ddatblygu yn y gwersi.

Dwedir "yr addysgu a'r dysgu sy'n llywio ac yn cynorthwyo datblygu sgiliau a gwybodaeth fathemategol gysyniadol fel bod **dysgwyr yn gynyddol yn gallu 'gwybod' a 'gwybod sut i' ddefnyddio eu gwybodaeth gydgysylltiedig a'u sgiliau datrys problemau datblygedig er mwyn mynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn a'u datrys.**" gan Simpson, A (2014). Felly, mae'n rhaid sicrhau bod y weithgareddau yn bwrpasol i fywydau pob dydd y disgyblion.

Wrth gynllunio'r gweithgareddau yn seiliedig ar y modelau, sicrhaf bod sgiliau trosglwyddadwy yn cael eu ddatblygu er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau pob dydd megis prynu adnoddau a rhoi newid. Hefyd sicrhaf pwrpas i'r tasgau wrth sicrhau cysylltiad rhwng y dasg a'r stori/thema o dan sylw.

Manteision a chyfyngiadau'r model Pwnc Unigol Trosglwyddadwy

Manteision y model yma yn ôl Barnes (2016, t. 69) yw ei bod yn medru cyfoethogi un pwnc gan ddefnyddio ystod o bynciau eraill er mwyn sicrhau dyfnder o ran dealltwriaeth y dysgwyr. Dweda Barnes hefyd bod y ffordd yma o ddysgu'n drawsgwricwlaidd yn gallu tanio syniadau newydd oherwydd y cysylltiadau annisgwyladwy rhwng pynciau cwricwlaidd gwahanol.

Yn ôl Hayes (2010) mae'n rhaid sicrhau dysgu'r ffiniau sydd wedi'u hamlinellu'n glir a ddarperir gan addysgu un pwnc er mwyn sicrhau dysgu o safon uchel. Hefyd fe all y model caniatáu i blant osgoi meysydd dysgu y maent yn ei chael yn anodd, a thrwy hynny yn ysgogi arferion ac agweddau gwaith gwael sydd yn anfantais o ran eu dysgu.

Sgiliau cwricwlaidd a ddatblygwyd

Llythrennedd

Mynegi barn ar bynciau cyfarwydd. Cyfrannu i sgysiaau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi.

Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Datblygu'r defnydd o linell stori o fewn ysgrifennu dychmygol.

Ysgrifennu mewn ymateb i ysgogiadau amrywiol ar bynciau sydd o ddiddordeb neu o bwys iddynt, gan gynnwys storïau, cerddi, gweithgareddau dosbarth a phrofiadau personol (LLC, 2014)

Rhifedd

Canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o 10c Adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych

Defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas a'u gweithgareddau bob dydd ac wythnosol a thymhorau'r flwyddyn (LLC, 2014)

Cymhwysedd Digidol

Cofnodi data a gesglir mewn fformat addas, e.e. *defnyddio pictogramau*

Gweithio gyda phartner/partneriaid ar ddarn o waith ddigidol Dewis meddalwedd priodol i gwblhau tasgau. (LLC, 2016)

Sgiliau Cwricwlaidd

Datblygu a defnyddio eu dealltwriaeth o tôn. Gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau. Creu eu syniadau cerddorol eu hunain a chyfrannu i gyfansoddiadau syml (LLC, 2015)

Gelert

Ysgrifennu brawddegau am deimladau Llywelyn pan welodd y babi a hefyd pan laddodd ef Gelert
Cyfiri blaidd yn yr ardal fathemateg – symiau mathemategol.
Creu e-lyfr ar J2e ar stori Gelert. Ail actio'r stori – pie corbett (chwarae rol)

Morwyn Llyn y fan

Ysgrifennu brawddegau i ddisgrifo Morwyn llyn y fan. Tasg cyfiri – adio a tynnu anifeiliaid y fferm hyd at 10 anifail.
Creu lluniau o'r stori ar J2e ac ysgrifennu brawddegau sydd yn cynnwys ansoddeiriau er mwyn eu ddisgrifio.

Cantre'r Gwaelod

Cyfansoddi cerddoriaeth i swnio fel clychau'r mor Cantre'r gwaelod. Creu tonnau y mor gan ddefnyddio ton gwahanol o las.
Ysgrifennu y digwyddiadau pwysicach yn ei drefn o'r dechrau i'r diwedd. (Rhaid yn gallu gwneud hyn ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.)
Tasg amser – cwestiynau e.e Os yw hi'n 12 o'r gloch ac mae rhaid i'r brenin fod nol erbyn 2 o'r gloch, faint o amser sydd ganddo?

Santes Dwynwen

Creu cardiau Santes dwynwen gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau. Trefnu'r stori o'r digwyddiad cyntaf i'r ddiwyddiad olaf. Ysgrifennu brawddegau yn disgrifio teimladau'r cymeriadau.
Creu pictogram ar hoff gymeriadau'r dosbarth yn y stori.

Chwedlau

Mae pob cylch ar y model yma yn seiliedig ar un wers o fewn y cyfnod sylfaen gan gynnwys tasgau ffocws a darpariaethau barhaus. E.e Gwers cyfan ar Gelert.

Model Thema Seiliedig